

## **Adroddiad Monitro Safonau Iaith Gymraeg**

**Prifysgol Aberystwyth**

**1 Ebrill 2018 i 31 Gorffennaf 2018**

### Cyflwyniad

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ddarostyngedig i Safonau'r Iaith Gymraeg er 1 Ebrill 2018. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar y cyfnod o 1 Ebrill 2018 hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol y sefydliad, sef 31 Gorffennaf 2018.

Hyd at 1 Ebrill 2018 bu'r Brifysgol yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg a gosododd y Cynllun hwnnw seiliau cadarn ar gyfer gweithredu'r Safonau Iaith. Mae'r prosesau a fabwysiadwyd yn ystod cyfnod gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg yn parhau ac wedi'u cryfhau, a phrosesau newydd wedi'u mabwysiadu hefyd i sicrhau cydymffurfio â gofynion newydd y Safonau Iaith. Cyfeiria'r adroddiad hwn at brosesau newydd a roddwyd ar waith er 1 Ebrill 2018.

Bu'r gwaith o baratoi'r adroddiad monitro hwn, yn ogystal â gweithredu gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd o dan ofal Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (RhCGG), Dr Mari Elin Jones, a Swyddog Datblygu'r Gymraeg (SDG), Dr Gwenno Piette.

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'w gymeradwyo gan Weithrediaeth y Brifysgol.

### Cyfathrebu Gofynion Safonau'r Gymraeg

Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer gweithredu'r Safonau cynhaliwyd nifer o gyflwyniadau wyneb yn wyneb â staff er mwyn egluro'r cefndir a'r gweithdrefnau statudol ynghyd â sut i gydymffurfio. Rhoddwyd cyflwyniadau cyffredinol, er enghraifft i staff newydd, staff gweinyddol, yn ogystal â chyflwyniadau wedi'u teilwra, megis tîm gweithredol y Brifysgol, rheolwyr a phenaethiaid a staff yr Adran Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus, lle cafwyd y cyfle i drafod materion penodol i'w gwaith.

Diwygiwyd gwefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg i gynnwys tudalennau penodol am y Safonau Iaith, cwestiynau a holi'r yn aml a nifer o ganllawiau penodol ar gyfer y Safonau:

- Ateb y Ffôn
- Gohebiaeth

- Llofnod E-bost
- Cyfarfodydd (y cyhoedd a myfyrwyr)
- Cadeirio Cyfarfod Dwyieithog
- Digwyddiadau / Darlithoedd Cyhoeddus a Seremonïau Graddio/Gwobrwyo
- Penderfyniadau Polisi
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Contractau a Thendro
- Grantiau a Chymorth Ariannol

Wrth i'r Safonau gael eu gweithredu ar draws y Brifysgol canfuwyd bod angen diwygio ambell i ganllaw am fod angen rhagor o eglurder neu i ychwanegu esiamp berthnasol, ac felly er bod y canllawiau hyn wedi'u cyhoeddi ar y wefan a'u dosbarthu ar bapur mewn cyflwyniadau ac wrth roi cyngor i unigolion, maent yn parhau'n ddogfennau byw a adolygir yn gyson.

\*\*\*\*

## **Safonau Cyflenwi Gwasanaethau**

### Gohebiaeth Ysgrifenedig (Safonau 1 – 7)

Mae'r Brifysgol yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ac ychwanegwyd y cymal isod at ohebiaeth swyddogol y Brifysgol ac at bob e-bost a anfonir gan staff Gwasanaethau Gwybodaeth.

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.*

O dan amodau'r Cynllun Iaith Gymraeg roedd hi'n arfer gan y Brifysgol i gofnodi iaith ddewisol myfyrwyr ar gyfer derbyn gohebiaeth yn eu cofnod myfyriwr ac mae'r arfer hwn yn parhau. Mae hyn yn ein galluogi i ohebu â myfyrwyr unigol yn eu dewis iaith.

Lluniwyd canllaw staff ar gyfer gohebiaeth ac mae'r canllaw hwnnw ar ein gwefan.

### Cyfathrebu Dros y Ffôn (Safonau 8 – 21)

Mae'r staff sy'n gweithio ar brif linellau ffôn y Brifysgol yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad yn Gymraeg ac fe luniwyd a darparwyd cyfarwyddiadau ar gyfer staff llinell gymorth Gwasanaethau Gwybodaeth a'r Switsfwrdd. Ceir canllaw cyffredinol ar gyfer sut i ymdrin â galwadau yn Gymraeg ar ein gwefan sy'n cynnwys darn am 'gwrteisi ieithyddol'.

O ran hyrwyddo'r gwasanaeth dwyieithog mae'r botwm 'Anfonwch neges atom ni' sy'n ymddangos ar waelod pob tudalen gwe yn mynd at dudalen cyswllt sy'n cynnwys y datganiad:

*Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg / We welcome calls in Welsh*

Mae cofnod pob myfyriwr yn nodi gallu yn y Gymraeg a defnyddir hyn fel cofnod o'r iaith i'w defnyddio wrth gyfathrebu â'r myfyriwr ar y ffôn.

Mae cronfa ddata Swyddfa'r Cyn-fyfyrywyr yn cofnodi dewis iaith ar gyfer cyfathrebu ar y ffôn ar gyfer y cyhoedd (cyn-fyfyrywyr yn bennaf) sy'n ymwneud â hwy.

#### Cyfarfodydd (Safonau 24 – 34)

Lluniwyd canllaw ar gyfer cyfarfodydd sy'n cynnwys templed ar gyfer gofyn i gyfranwyr a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i archebu cyfieithydd ar y pryd er mwyn sicrhau y gall mynychwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'r canllaw yn egluro'r amodau ar gyfer cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog gan nodi'r gwahaniaeth rhwng cyfarfodydd ag unigolion a chyfarfodydd â nifer o bobl. Mae'r canllaw ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ac anfonwyd copi at reolwyr y Cyfadrannau i'w hatgoffa bod gan fyfyrwyr hawl penodol i gyfarfodydd yn Gymraeg.

#### Digwyddiadau Cyhoeddus (Safonau 35 – 38)

Er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu deunydd cyhoedduswydd ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus trafodwyd y safonau hyn gyda thîm Cyfathrebu'r Brifysgol sydd yn cysylltu â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn rheolaidd i drafod dwyieithrwydd digwyddiadau cyhoeddus penodol. Lluniwyd canllaw ar drefnu digwyddiadau cyhoeddus a cheir copi ar y wefan.

#### Darlithoedd Cyhoeddus (Safonau 40 – 40A)

Tîm Cyfathrebu'r Brifysgol sy'n gyfrifol am gyhoedduswydd darlithoedd cyhoeddus a threfnu cyfieithu ar y pryd pan fydd angen ac maent yn ymwybodol o ofynion y Safonau Iaith. Mae'r canllaw ar gyfer cyfarfodydd a nodir uchod yn cynnwys cyfeiriad at ddarlithoedd cyhoeddus.

#### Seremonïau Graddio (Safonau 41 – 42)

Mae'r wybodaeth am drefn digwyddiadau seremonïau graddio'r Brifysgol yn ddwyieithog yn flynyddol a cheir templed ar gyfer gofyn am ddewis iaith y personau a wahoddir i siarad mewn seremoni raddio neu wobrwyo yn y canllaw Digwyddiadau/Darlithoedd Cyhoeddus a Seremonïau Graddio/Gwobrwyo. Mae'r

canllaw hwnnw ar y wefan. Ein harfer yw darparu cyfieithiad ysgrifenedig o unrhyw araith a draddodir yn Gymraeg mewn seremoni graddio.

#### Cyhoeddiadau (Safonau 43 – 52)

O dan amodau'r Cynllun Iaith Gymraeg gosodwyd gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod unrhyw ddogfen at ddefnydd y cyhoedd/myfyriwr yn ddwyieithog ac nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran maint, ansawdd a chywirdeb. Mae'r gweithdrefnau hynny'n parhau.

#### Ffurflenni (Safonau 53 – 54)

Mae pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig a gynhrychir ar gyfer y cyhoedd a/neu myfyrwyr yn ddwyieithog. Os cynhrychir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ein harfer yw anfon y ffurflenni yn newis iaith y myfyriwr neu'r aelod o'r cyhoedd.

#### Y Wefan (Safonau 55 – 59)

Mae gan y Brifysgol Strategaeth Gwefannau Dwyieithog sy'n galluogi'r Uned Gyfieithu i flaenoriaethu ei rhaglen waith wrth gyfieithu tudalennau gwe. Diweddarwyd y Strategaeth yn 2018 er mwyn adlewyrchu gofynion y Safonau.

#### Meddalwedd Gwirio Sillafu a Gramadeg (Safon 60)

Mae meddalwedd Cysgliad ar gael i bob myfyriwr ar gyfrifiaduron y gweithfannau cyhoeddus. Mae'r un feddalwedd ar gael ar gais i staff roi ar eu cyfrifiaduron swyddfa ac ar liniaduron a ddefnyddir at bwrpas gwaith.

*BlackBoard* yw'r porth dysgu a ddefnyddir gan y Brifysgol ac nid yw ar hyn o bryd yn cynnwys gwirydd sillafu ar gyfer y Gymraeg na'r Saesneg. Mae'n bosibl y bydd yr uwchraddiad nesaf yn gallu cynnwys y swyddogaeth hon ac os felly fe sicheir y bydd yn cynnwys gwirydd sillafu ar gyfer y ddwy iaith.

#### Apiau (Safon 61)

Mae Strategaeth Gwefannau Dwyieithog y Brifysgol a ddiwygiwyd yn 2018 yn cynnwys darn am apiau i adlewyrchu gofynion y Safonau.

#### Cyfryngau Cymdeithasol (Safonau 62 - 63)

Mae gan y Brifysgol gyfrifon cymdeithasol gwahanol gan gynnwys *Facebook* a *Twitter*. Atebir unrhyw ohebiaeth Gymraeg a dderbynnir drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg. Lluniwyd canllaw sy'n egluro sut i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol wrth weithredu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae'r canllaw ar y we ac anfonwyd copi at y tîm Cyfathrebu.

#### Peiriannau Hunanwasanaeth (Safon 64)

Ceir peiriannau hunanwasanaeth ar gyfer benthyg a dychwelyd llyfrau yn y llyfrgell. Mae'r rhain yn ddwyieithog.

#### Arwyddion (Safonau 65 – 67)

Sefydlwyd gweithdrefn o sicrhau fod pob arwydd yn ddwyieithog o dan amodau'r Cynllun Iaith ac mae'r weithdrefn honno'n parhau.

#### Derbynfeydd (Safonau 68 – 72)

Ceir arwydd (poster iaith Gwaith) ymhob derbynfa sy'n agored i'r cyhoedd ac mae'r staff dwyieithog sy'n gweithio yno yn gwisgo bathodyn i ddangos hynny.

#### Hysbysiadau (Safonau 73 – 74)

Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi ei holl hysbysiadau yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos uchaf neu i'r chwith o'r Saesneg.

#### Grantiau (Safonau 75 – 79)

Mae'r holl ddogfennaeth a'r weithdrefn ar gyfer myfyrwyr sy'n gwneud cais am gymorth ariannol ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys yr hawl i gyfweliad yn Gymraeg.

#### Contractau a ddyfernir i drydydd parti (Safonau 80 - 84)

Wedi ymgynghori â'r Swyddfa Gaffael lluniwyd canllawiau ar gyfer tendro a chontractau trydydd parti sy'n egluro bod gan dendrwy'r hawl i gyflwyno eu ceisiadau yn Gymraeg ac i gael eu cyfweld yn Gymraeg. Anfonwyd y canllaw at y staff sy'n ymwneud â chaffael ac mae'r canllaw ar ein gwefan hefyd.

Yn ychwanegol at y canllaw sy'n nodi hawliau'r ymgeiswyr ceir rhestr wirio ar ein gwefan o weithgareddau trydydd parti a allai ddod o dan ofynion y Safonau. Anfonwyd y rhestr at y Swyddfa Gaffael hefyd fel bod modd ei dosbarthu i ddarparwyr trydydd parti posibl fel y gallant weld a fydd eu gwasanaeth yn ddarostyngedig i'r Safonau.

#### Hysbysebu a Hybu (Safonau 85 – 86)

Mae'r holl gyhoeddusrwydd a'r dogfennau a gynhyrchir gan y Brifysgol yn hysbysebu'r gwasanaethau a gynigir gennym yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar bapur ac ar ein gwefan.

#### Hunaniaeth Gorfforaethol ( Safon 87)

Mae hunaniaeth gorfforaethol y Brifysgol yn hollol ddwyieithog.

#### Cyfleoedd Dysgu (Safon 88)

O ran cyfleoedd dysgu sy'n agored i'r cyhoedd nad ydynt yn rhan o gwrs neu yn arwain at berfformiad, gellir cyfeirio at sesiynau'r Ganolfan Chwaraeon a Chanolfan y Celfyddydau. Mae Canolfan y Celfyddydau yn cyflogi tiwtoriaid achlysurol sy'n medru'r Gymraeg ac mae Cynllun Iaith Gymraeg y Ganolfan (2017 - 2020) yn cyfeirio at gasglu dymuniadau mynychwyr dosbarthiadau o ran iaith y dosbarth er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Cynhelir rhai sesiynau megis dawnsio yn ddwyieithog os yw'r tiwtor yn medru'r Gymraeg.

#### Asesiadau (Safon 90 – 90A)

Bu gan fyfyrwyr y Brifysgol yr hawl i gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg ers nifer o flynyddoedd ac mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn hwyluso hyn ers tro. Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys pennu tiwtor cyfrwng Cymraeg o fewn yr un adran i farcio'r gwaith ac os nad yw hyn yn bosibl fe gyfieithir y gwaith i'r Saesneg i'w farcio. Mae'r tîm cyfieithu yn gyfarwydd iawn â chyfieithu gwaith academaidd fel hyn. Mae papurau arholiad cyfrwng Saesneg yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg hefyd fel y gall myfyriwr sefyll yr arholiad yn Gymraeg os yw'n dymuno.

#### Cyhoeddiad Cyhoeddus (Safon 91)

Mae'r cyhoeddiadau a geir ar y system annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan y Brifysgol, sef yn theatr Canolfan y Celfyddydau ac yn Llyfrgell Hugh Owen yn ddwyieithog.

#### Llety Myfyrwyr (Safonau 92 – 92A)

Mae'r Brifysgol yn cynnig llety preswyl cyfrwng Cymraeg i'w myfyrwyr a cheir gwybodaeth am yr opsiynau gwahanol ar ein gwefan [<https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/accommodation-options/welsh-medium/>](https://www.aber.ac.uk/cy/accommodation/accommodation-options/welsh-medium/). Mae Pantycelyn-Penbryn yn llety arlwygo a llety Fferm Penglais yn fflatiau hunan-arlwygo.

Bwriad y Brifysgol yw ailagor Neuadd Pantycelyn yn 2020.

#### Tiwtor Personol (Safon 93)

Mae'r Brifysgol yn darparu tiwtor personol sy'n medru'r Gymraeg yn ddiodyn i bob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg. Pan nad oes modd pennu tiwtor o'r un adran fe bennir tiwtor iddynt o'r Gyfadran.

\*\*\*\*

## **Safonau Llunio Polisi**

### **Penderfyniadau Polisi (Safonau 94 – 96)**

Er mwyn ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg lluniwyd ffurflen Asesiad Ardrawiad Iaith. Mae copi o'r ffurflen ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ac ar dudalen cydraddoldeb gwefan Adnoddau Dynol. (Gweler atodiad 1). Lluniwyd canllaw ar gyfer asesu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg ac mae'r canllaw yn cynnwys cymorth i ddiffinio penderfyniad polisi, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sut i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r canllaw ar ein gwefan.

### **Ymgynghori (Safonau 97 – 99)**

Yn ystod proses ymgynghori ar benderfyniadau polisi mae'r Brifysgol yn ceisio barn am effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Gwneir hyn trwy gynnwys cwestiwn penodol am y Gymraeg, ochr yn ochr â chwestiynau eraill, yn y ddogfen ymgynghori, neu trwy ofyn y cwestiwn ar lafar mewn cyfweiliad ymgynghori gydag unigolyn.

Mae'r canllaw polisïau yn cynnwys enghraifft o sut gellir cyflwyno'r cwestiwn:

*Yn unol â gofynion y Safonau Iaith, fel rhan o unrhyw broses ymgynghori, mae'n rhaid i'r Brifysgol ofyn eich barn a fyddai hyn yn cael effaith ar a) gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid gofyn hefyd a ydych yn ystyried bod modd llunio neu addasu'r polisi fel y byddai'n cael effeithiau positif neu fwy positif, neu a oes modd llunio neu addasu'r polisi fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol yn eich barn chi? Ac os felly sut?*

### **Dyfarnu Grantiau/Cymorth Ariannol (Safon 100)**

Wedi ystyried i ba raddau mae'r Brifysgol yn dyfarnu grantiau, ac wedi ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg, penderfynwyd nad yw'r Brifysgol yn ymgymryd â gweithgaredd perthnasol sy'n gofyn am lunio polisi ar gyfer hyn am y tro.

### **Comisiynu Ymchwil (Safonau 101 – 103)**

Ni fu'r Brifysgol yn ymwneud â chomisiynu ymchwil i gynorthwyo penderfyniad polisi yn ystod y cyfnod adrodd, fodd bynnag y bwriad yw defnyddio'r ffurflen Asesiad Ardrawiad Iaith ar gyfer hyn. Mae'r canllaw polisïau yn cynnwys cyfeiriad at gomisiynu ymchwil.

### **Cyrsiau Academaidd (Safon 104)**

Mae ystyried y ddarpariaeth Gymraeg wrth greu neu ddileu cyrsiau gradd yn rhan o'r weithdrefn eisoes ac yn ystod y cyfnod adrodd, Grŵp Datblygu'r Ddarpariaeth Gymraeg ynghyd â chadeirydd Cangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

a'r Dirprwy Is-Ganghellor â chyfrifoldeb am y Gymraeg oedd yn gyfrifol am arolygu'r broses mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymraeg.

Ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd (2018/19) rhoddwyd strwythurau academaidd a phwyllgorau newydd yn eu lle. Dechreuwyd ar y gwaith paratoi ar gyfer hyn yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys ystyried sut i addasu'r ffurflenni priodol i adlewyrchu gofynion mwy penodol y Safonau wrth ystyried effaith ar yr iaith Gymraeg wrth lunio/addasu neu ddileu cwrs.

\*\*\*\*

## **Safonau Gweithredu**

### **Defnyddio'r Gymraeg o Fewn y Sefydliad (Safon 105)**

Lluniwyd polisi drafft ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn y sefydliad, sef *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ym Mhrifysgol Aberystwyth*. Dechreuwyd ar y broses gymeradwyo drwy ymgynghori â grŵp bychan o staff yn y lle cyntaf a bydd ymgynghori yn digwydd gyda'r Undebau Llafur hefyd. Bydd y polisi yn cael ei gymeradwyo gan Grŵp Gweithredol y Gymraeg a Gweithrediaeth y Brifysgol.

### **Cyflogaeth (Safonau 106 - 111)**

Mae'r Brifysgol yn defnyddio system electronig ar gyfer derbyn ceisiadau am swyddi, felly, mae'r ffurflen gais wedi'i gosod ar-lein. Gellir defnyddio'r system yn Gymraeg ac mae'r ffurflen gais yn gofyn am ddewis iaith gohebiaeth yr ymgeisydd. Ychwanegwyd cwestiwn at y ffurflen sy'n gofyn i'r ymgeisydd nodi dewis iaith ar gyfer y cytundeb gwaith hefyd.

Cofnodir dewis iaith staff ar gyfer derbyn gohebiaeth ar system cofnodion staff, sef PoblAber, fel y bydd pob gohebiaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth gan y Brifysgol yn newis iaith yr aelod o staff.

Mae'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol, a ddefnyddir gan y Brifysgol ar gyfer ystyried perfformiad staff, yn cynnwys anghenion hyfforddiant, amcanion perfformiad a chynllun gyrfa. Gellir llenwi ffurflen y Cynllun yn Gymraeg ac mae'r holl ddeunydd cysylltiedig sydd ar y wefan ar gael yn ddwyieithog. Mae'r llythyr i staff newydd sy'n cyfeirio at y Cynllun Cyfraniad Effeithiol yn nodi bod holl ddeunydd y Cynllun ar gael yn Gymraeg.

Mae'r drefn o gofnodi ac awdurdodi gwyliau, absenoldebau ac oriau gwaith yn digwydd o fewn Pobl Aber, sydd yn system ddwyieithog.

### **Polisiâu Adnoddau Dynol (Safonau 112 – 118)**



Mae holl bolisiâu Adnoddau Dynol, gan gynnwys y rhai sy'n ymdrin â'r materion a restrir yn y Safonau, yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog.

#### Cwynion am/gan staff (Safonau 119 – 122)

Mae gan aelodau o staff y Brifysgol yr hawl i wneud achwyniad ffurfiol ac ymateb i gwynion trwy gyfrwng y Gymraeg. Ychwanegwyd cymal at y Weithdrefn Gwyno sydd ar wefan Adnoddau Dynol i gyfeirio at hawliau staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gwyno neu ymateb i gŵyn.

#### **10 Y Gymraeg – Hawliau Gweithwyr**

*Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018 mae gan weithwyr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg*

*(i) i wneud cwyn*

*(ii) i ymateb i gŵyn neu honiad*

*Ac mae gan weithwyr yr hawl hefyd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd lle maent yn destun*

*(iii) cwyn a honiad (neu os ydynt wedi gwneud cwyn)*

*(iv) trafodion disgyblaethol*

*(v) trafodaethau'r cynllun cyfraniad effeithiol*

*(vi) cyfarfodydd ymgynghori unigol*

*Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn cael ei ddarparu mewn cyfarfod os nad oes modd cynnal y cyfarfod yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.*

Mae'r llythyr sy'n gwahodd staff i gyfarfod i drafod cwyn yn cynnwys cymal sy'n gofyn a yw'r aelod o staff eisiau defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

#### Disgyblu Staff (Safonau 123 – 126)

Mae gan staff yr hawl i ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn mewn proses ddisgyblu fewnol yn Gymraeg. Mae'r Weithdrefn Disgyblu yn datgan yr hawl honno a'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod disgyblu.

#### Sgiliau Staff (Safonau 127 ac 134)

Mae gan yr holl staff ddewis o ryngwyneb Cymraeg neu Saesneg ar eu cyfrifiaduron, ac mae pecynnau gwirio sillafu a gramadeg a geiriadur Cymraeg *Cysgliad/Cysill* ar gael i'r holl staff ar gais gan adran Gwasanaethau Gwybodaeth.

Cesglir data am sgiliau iaith staff wrth iddynt wneud cais am swydd gyda'r Brifysgol ac fe gofnodir hyn ar eu cofnod staff os cânt eu penodi. Gall staff presennol lenwi neu wirio'r blwch sgiliau iaith sydd ar eu cofnod staff. Anfonir negeseuon i atgoffa staff am hyn yn rheolaidd.

#### Hyfforddiant i Staff (Safonau 135 – 137)

Yn ystod y cyfnod adrodd fe gynigiwyd hyfforddiant i staff ar gyfer llenwi ffurflenni cais a gwneud cyfweiliadau yn Gymraeg. O ran hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu nododd y Comisiynydd bod hyn yn cael ei ddarparu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg drwy'r cynllun Cymraeg Gwaith.<sup>1</sup>

Lluniwyd canllaw ar gyfer Cyfarfodydd Dwyieithog a cheir copi ar ein gwefan.

Gwiriwyd bod staff Gwasanaethau Gyrfaoedd yn llwyr ymwybodol o werth sgiliau yn y Gymraeg yn y sector cyflogaeth ac yn hyrwyddo hynny ymhlith myfyrwyr.

#### Hyfforddiant Iaith (Safonau 138 - 141)

Mae'r Brifysgol yn annog ei staff i ddatblygu sgiliau Cymraeg ac mae gan staff yr hawl i fynychu gwersi Cymraeg a gynhelir yn y gymuned am ddim. Roedd 61 aelod o staff yn mynychu dosbarthiadau o'r fath yn ystod y cyfnod adrodd.

Wedi blwyddyn gyntaf lwyddiannus iawn o'r Cynllun Cymraeg Gwaith fe dderbyniwyd cyllid pellach i gynnal blwyddyn arall o'r Cynllun. Mae blwyddyn ariannol y cynllun yn rhedeg o fis Mawrth i fis Mawrth ac yn ystod y cyfnod adrodd roedd 36 aelod o staff yn manteisio ar y cyfle hwn i gael gwersi Cymraeg wedi'u teilwra i'r gweithle yn ystod oriau gwaith.

Mae sesiynau cynefino staff newydd yn cynnwys cyflwyniad am ddwyieithrwydd y Brifysgol a gofynion y Safonau Iaith. Mae'r sesiynau hyn yn digwydd ddwywaith y flwyddyn ac fe gynhaliwyd un yn ystod y cyfnod adrodd. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau am y Safonau Iaith a'r modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle gyda staff gweinyddol yr athrofeydd a'r gwasanaethau proffesiynol a staff Gwasanaethau Gwybodaeth.

#### Llofnod a negeseuon e-bost, bathodynnau (Safonau 142 - 144A)

Anogir staff i lawrlwytho geiriad a logo o wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg i roi ar waelod eu llofnod e-bost i ddangos eu bod yn medru neu yn dysgu'r Gymraeg. Ceir dolen i'r logo o dudalen Cwestiynau a Ofynnir yn Aml ar wefan Gwasanaethau Gwybodaeth.

Disgwylir i staff osod negeseuon dwyieithog wrth lunio e-bost allan o'r swyddfa a cheir canllaw ar gyfer hyn ar ein gwefan. Dosbarthwyd bathodynnau a chortynnau gwddf *Iaith Gwaith* a *Dysgwr* yn rheolaidd yn ystod y cyfnod adrodd.

#### Swyddi (Safonau 145 – 149)

<sup>1</sup> Gw. nodiadau *Cyfarfod i drafod perfformiad rhwng cynrychiolwyr Comisiynydd y Gymraeg a Phrifysgol Aberystwyth: gwybodaeth bellach ac ymatebion i ymholiadau*, 02/10/2018

Asesir pob swydd ar gyfer gofynion iaith drwy system E-Recruiter a chaiff yr asesiad ei wirio gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg. Hysbysebir pob swydd yn ddwyieithog ac mae pob swydd yn nodi un ai bod lefel benodol o'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol neu fe ofynnir am ymwybyddiaeth o natur ddwyieithog y Brifysgol pan na fydd y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ofyniad.

Mae gwefan y Brifysgol sy'n hysbysebu swyddi yn cynnwys y datganiad :-

*Mae croeso i chi wneud cais am unrhyw swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd pob cais a gyflwynir yn cael eu trin yn gyfartal.*

Mae pob hysbyseb swydd yn cynnwys y datganiad :-

*Sefydliad Dwyieithog sy'n cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg ac sy'n ymroddedig i Gyfle Cyfartal. Mae croeso i chi wneud cais am unrhyw swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg a bydd pob cais a gyflwynir yn cael eu trin yn gyfartal.*

Defnyddir system electronig E-Recruiter i ymgeisio am swyddi ac mae'r system yn gwbl ddwyieithog. Mae ymgeisydd yn dewis ym mha iaith y mae am ddefnyddio'r system ac yna mae'r holl broses, gan gynnwys y ffurflen gais, esboniadau a gwybodaeth, yn newis iaith yr unigolyn. Mae pob swydd ddisgrifiad yn ddwyieithog.

Mae'r ffurflen gais yn gofyn i bob ymgeisydd am swydd pa un yw eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliad ac mae'r ffurflen yn datgan:-

*Cewch ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn cyfweiliad ac os bydd angen fe ddefnyddir cyfieithydd ar y pryd.*

Arwyddion (Safonau 150 – 153)

Sefydlwyd gweithdrefn o sicrhau fod pob arwydd yn ddwyieithog o dan amodau'r Cynllun Iaith ac mae'r weithdrefn honno yn parhau.

\*\*\*\*

---

### **Safonau Cadw Cofnodion**

Cwynion (Safonau 154 – 156)

Derbyniwyd 3 chwyn mewn perthynas â'r Safonau Iaith yn ystod y cyfnod adrodd. Cwynion a ddaeth trwy law Comisiynydd y Gymraeg oedd y rhain. Cedwir cofnod a manylion cwynion a dderbynnir gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a gweithredir y weithdrefn gwynion wrth ymdrin â hwy.

Polisiau (Safon 157)

Defnyddiwyd yr erfyn ar gyfer asesu'r effaith ar y iaith Gymraeg wrth wneud penderfyniad polisi, sef yr Aseiad Ardrawiad Iaith Gymraeg, 3 gwaith yn ystod y cyfnod adrodd. Cedwir cofnod o'r holl aseidiadau gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

#### Sgiliau Iaith Staff (Safon 158)

Casglwyd sgiliau iaith yr holl staff ym mis Awst 2018. Defnyddir Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) ar gyfer y lefelau.

	<b>Sgiliau Llafar</b>	<b>Sgiliau Ysgrifenedig</b>
C2	146	128
C1	65	56
B2	241	227
B1	214	154
A2	50	48
A1	318	258
A0	797	942
Anhysbys	226	244
Cyfanswm staff.	2057	2057

#### Hyfforddiant Staff (Safon 159)

Cynhaliwyd dau gwrs hyfforddiant yn ymwneud â recriwtio a chyfweld i staff yn ystod y cyfnod adrodd. Darparwyd sesiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

	<b>Nifer a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg.</b>	<b>Canran o'r staff a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg.</b>
<i>Gwneud Cyfweiliad</i>	8	6.1%
<i>Gwneud Ceisiadau</i>	7	7%

#### Swyddi (Safon 161- 162)

Ers lansio system dechnegol gadarn ym mis Hydref 2016 i hwyluso gweithrediad lawn y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, rydym yn hyderus bod 95% o'r swyddi a hysbysebwr wedi'u hystyried ar gyfer gofynion iaith Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod adrodd dosbarthwyd swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd fel a ganlyn:<sup>2</sup>

<b>Sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swyddi</b>	<b>Nifer</b>
a) Swyddi â sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	19

<sup>2</sup> Noder. Mae'r data yn cynnwys 21 swydd a oedd ar gael i staff y Brifysgol a oedd ar restr ystyriaeth flaenorol yn unig yn y lle cyntaf. Dim ond mewn achos o fethu â llenwi'r swyddi o'r rhestr hon yr hysbysebwyd y swydd yn fewnol yn y lle cyntaf ac yna yn allanol.

b) Swyddi yn gofyn am ddysgu'r Gymraeg (os nad yw'r ymgeisydd yn medru Cymraeg yn barod)	29
c) Swyddi â sgiliau Cymraeg (ar bob lefel) yn ddymunol	69
ch) Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	54

\*\*\*\*

## **Safonau Atodol**

### **Dogfen Safonau Iaith (Safonau 163, 169, 175, 181)**

Mae'r ddogfen *Safonau Iaith Gymraeg Prifysgol Aberystwyth* yn amlinellu pa Safonau y mae'n ddyletswydd ar y Brifysgol i gydymffurfio â hwy. Mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan ac ar gais ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd a'r myfyrwyr.

### **Gweithdrefn Gwyno (Safonau 164, 170,176)**

Mae gennym weithdrefn gwyno ar waith i ymdrin â'r holl gwynion a dderbynnir gan y sefydliad ynghylch cydymffurfio â'r Safonau a chwynion ynglŷn â'r Gymraeg. Cyhoeddir y weithdrefn hon ar ein gwefan ac mae ar gael ar gais ym mhob un o'r swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd. Gellir cwyno trwy ddefnyddio ffurflen electronig rhyngweithiol sydd ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Brifysgol drwy e-bost, llythyr neu alwad ffôn. Cyfeiriwyd at y weithdrefn gwyno, gan gynnwys prosesau'r Comisiynydd o ddelio â chwynion, yn y cyflwyniadau am y Safonau Iaith i staff.

### **Monitro (Safonau 165, 171,177)**

Mae'r ddogfen *Trefniadau Goruchwylio Safonau'r Iaith Gymraeg* yn egluro ein trefniadau ar gyfer goruchwylio'r modd yr ydym yn cydymffurfio â'r Safonau. Ceir copi ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd ac ar ein gwefan. Rydym yn monitro ein cynnydd o ran gweithredu yn erbyn targedau mewn Cynllun Gweithredu Blynyddol.

### **Adroddiad Blynyddol (Safonau 166, 168,172, 174, 178, 180, 182)**

Ar gyfer ein hadroddiad cyntaf gofynnwyd i ni adrodd am y cyfnod ers dechrau gweithredu'r Safonau hyd at ddiwedd ein blwyddyn ariannol, sef o 1 Ebrill 2018 i 31 Gorffennaf 2018. Mae'r adroddiad yn cynnwys

- i. nifer y cwynion a dderbyniwyd
- ii. nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg
- iii. nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg
- iv. nifer y swyddi newydd a gwag ynghyd â'u categori parthed gofynion sgiliau iaith Gymraeg

## Dogfen Cydymffurfio (Safonau 167, 173,179)

Mae'r ddogfen *Safonau Iaith Prifysgol Aberystwyth* yn egluro sut yr ydym yn cydymffurfio â'r Safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Mae'r ddogfen ar gael ar ein gwefan ac ar gais ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd a'r myfyrwyr.

Ionawr 2019